LLWYBR CARLAM GRANT CYMUNEDOL Y MEYSYDD GLO (CYMRU)

CANLLAWIAU AR GYFER

Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo
ADEILADU FFYNIANT A CHYFLEOEDD

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Cafodd Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (YAMG) ei sefydlu ym 1999 a dyma'r unig sefydliad dynodedig sydd yn datblygu ffyniant a chyfleoedd mewn cyn cymunedau glofaol, ledled y DU ac sydd yn cynrychioli dros 5.5 miliwn o bobl. Rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni dros yr 20 mlynedd ddiwethaf ac rydym wedi darparu cynlluniau sydd wedi mynd i'r afael â'r heriau enfawr a grëwyd yn sgil dod â'r diwydiant i ben. Rydym yn ymroddedig i gynorthwyo a gwella ansawdd bywydau pobl sydd yn byw mewn cyn cymunedau glofaol ac yn eu helpu i sicrhau cyflogaeth, gwella sgiliau, iechyd a llesiant. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal a datblygu cyfleusterau lleol a mentrau cymdeithasol sydd yn darparu gwasanaethau ar gyfer cyn cymunedau glofaol.

Rhaglen Llwybr Carlam Grant Cymunedol y Meysydd Glo

Gall Rhaglen Llwybr Carlam Grant Cymunedol y Meysydd Glo yng Nghymru, ddyfarnu cyllid cyfalaf sydd rhwng £500 a £2,000 ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bwriad y rhaglen yw cynorthwyo sefydliadau cymunedol a gwirfoddol sydd yn rheoli cyfleusterau cymunedol i gael mynediad i gyllid angenrheidiol ar gyfer iechyd a diogelwch brys neu wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn eu cyfleuster cymunedol.

Meini Prawf Cymhwysedd

Mae'n rhaid i'ch sefydliad feddu ar ddogfen lywodraethu addas.

Mae'n rhaid i chi allu darparu'ch set ddiweddaraf o gyfrifon neu ar gyfer sefydliadau newydd, ragolwg o gyfrifon ar gyfer 24 mis.

Mae'n rhaid i incwm anghyfyngedig, blynyddol eich sefydliad fod yn llai na £250,000.

Mae'n rhaid bod gennych gyfrif banc ag o leiaf dau lofnodwr sydd annibynnol i'w gilydd.

Mae'n rhaid bod eich prosiect wedi'i leoli mewn cymuned maes glo cymwys neu allu dangos buddion clir, yn syth o fod yn gymuned maes glo, cymwys.

Mae'n rhaid i'ch sefydliad fod yn berchen ar yr adeilad neu feddu ar brydles atgyweirio ac yswiriant lawn ag o leiaf bum mlynedd yn weddill.

Mae'n rhaid i chi feddu ar bob caniatâd perthnasol ar gyfer eich prosiect e.e. caniatâd landlord, rheoliadau adeiladu, caniatâd cynllunio.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae eu hadnodd o fudd i'r gymuned ehangach ac nad aelodau'r sefydliad yw'r unig fuddiolwyr.

Nid yw'r rhaglen hon yn galw am arian cyfatebol, fodd bynnag, os ydych yn cyfrannu at brosiect cyfalaf mwy, bydd angen cadarnhad fod ffynonellau cyllido eraill (personol neu allanol) wedi cael eu sicrhau cyn i ni ryddhau unrhyw gyllid.

Bydd angen un amcanbris am unrhyw waith/eitem/eitemau sydd o dan £5,000 a thri amcanbris y gellir eu cymharu am unrhyw waith/eitem/eitemau sydd dros £5,000. Ar gyfer prosiectau sydd dros £25,000, bydd angen copi tendrau. Nodwch nad yw'r costau hyn yn cynnwys TAW.

Nid oes fodd i ni ariannu sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid oddi fewn i'r 12 mis diwethaf neu nad sydd eto wedi cwblhau eu prosiect.

Costau na allwn eu hariannu (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- Costau prosiectau y mae'r ymddiriedolaeth wedi eu hariannu o'r blaen trwy Grantiau Cymunedol neu raglenni Pontio'r Gagendor
- Cyfraniad tuag at brosiect mwy sydd â chostau yn fwy na £150,000.
- Costau diffyg mewn cyllid neu ôl-weithredol (costau yr ydych wedi ymroi iddynt neu sydd yn ddyledus i'w talu, cyn i'ch cais gael ei gymeradwyo)
- Cyfalaf wrth gefn
- Creu neu gynnal llwybrau cerdded neu feysydd parcio
- Datblygu bariau neu ardaloedd bar er mwyn cynyddu elw
- Offer meddygol neu ymchwil
- Taliadau banc neu archwilio
- Dibrisiant neu amorteiddiad
- Ffioedd proffesiynol/ymgynghorol
- Ffioedd ar gyfer codi arian annibynnol neu allanol
- Dyledion sydd yn cynnwys costau morgais
- Cyllid angenrheidiol ar gyfer credydau treth tirlenwi.

GWNEUD CAIS

Cwblhewch y Ffurflen Gais Llwybr Carlam gan gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol, fel y nodir ar y ffurflen gais i wales@coalfields-regen.org.uk a bydd aelod o'n tîm asesu yn cysylltu â chi oddi fewn 4 wythnos i'ch hysbysu o'r penderfyniad neu i ofyn am ragor o wybodaeth.

Fel rhan o asesiad y prosiect, byddwn yn asesu os yw'r grant yn cyflawni gofynion Cymorth yr UE/Rheolaeth Cymhorthdal y DU. Efallai bydd angen i chi gyflwyno rhagor o wybodaeth am eich prosiect, eich sefydliad ac unrhyw arian a dderbyniwyd hyd yn hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch 01495 367680 neu e-bostiwch wales@coalfields-regen.org.uk

Noder: Rydym yn derbyn deunydd cais yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae deunydd cais ar gael yn y Gymraeg, cysylltwch â ni os ydych am gopi.